# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Ionawr 2017

Amser: 14.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMCD@cynulliad.cymru


## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(14.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.30 - 14.35) (Tudalennau 1 - 2)

**CLA(5)-02-17 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**SL(5)047 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016**

**SL(5)048 - Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) (Diwygio) 2016**


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Papurau i'w nodi

(14.40 - 14.45)

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

(Tudalennau 3 - 8)

**CLA(5)-02-17 – Papur 2** – Gohebiaeth gan y Pwyllgor i'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 13 Rhagfyr 2016
**CLA(5)-02-17 – Papur 3** – Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor, 12 Ionawr 2017

**Gohebiaeth gan y Llywydd: Y diweddaraf ar Senedd@Casnewydd**

(Tudalennau 9 - 10)

**CLA(5)-02-17 – Papur 4** – Gohebiaeth gan y Llywydd at y Cadeirydd ynghylch Senedd@Casnewydd, 13 Ionawr 2017

**Bil Cymru: Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at Lywodraeth y DU ynghylch cymal 60 o Fil Cymru**

(Tudalennau 11 - 12)

**CLA(5)-02-17 – Papur 5** – Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at Lywodraeth y DU ynghylch cymal 60 o Fil Cymru, 22 Rhagfyr 2016 [Saesneg yn unig]

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(14.45)

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson; a

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

## 5 Gohebiaeth ddrafft i'w gytuno

(14.45 - 14.50)

**Ymateb i'r alwad am dystiolaeth gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Dirprwyo pwerau**

(Tudalennau 13 - 15)

**CLA(5)-02-17 - Papur 6** [Saesneg yn unig]

**Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Gohebiaeth at Y Pwyllgor Busnes ynghylch y weithdrefn gadarnhaol dros dro**

(Tudalen 16)

**CLA(5)-02-17 - Papur 7** [Saesneg yn unig]

## 6 Y diweddaraf ar Fil Cymru

(14.50 -15.00) (Tudalennau 17 - 20)

**CLA(5)-02-17 - Papur 8** [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-02-17 - Papur 9** [Saesneg yn unig]

## 7 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Y flaenraglen waith

(15.00 - 15.15) (Tudalennau 21 - 23)

**CLA(5)-02-17 - Papur 10** [Saesneg yn unig]

## 8 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Cyfleoedd ymgysylltu â’r Pwyllgor

(15.15 - 15.45) (Tudalennau 24 - 38)

**CLA(5)-02-17 – Papur 11** [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-02-17 – Papur 11, Atodiad A** [Saesneg yn unig]
**CLA(5)-02-17 – Papur 11, Atodiad B** [Saesneg yn unig]

## 9 Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a'r sefydliadau datganoledig: Y diweddaraf ynghylch yr ymchwiliad

(15.45 - 16.00) (Tudalennau 39 - 40)

**CLA(5)-02-17 – Papur 12** [Saesneg yn unig]

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Llun 30 Ionawr 2017

# Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir
23 Ionawr 2017

## SL(5)047 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio amryw ddarnau o is-ddeddfwriaeth y GIG drwy:

- ymestyn y diffiniad o 'ragnodydd' drwy fewnosod categori ychwanegol o ragnodydd annibynnol: radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol, ac
- ymestyn y diffiniad o 'ragnodydd atodol' i gynnwys deietegwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 drwy ymestyn yr esemptiad i'r gofyniad i godi tâl am fagiau siopa untro, fel bod yr esemptiad yn cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol neu gyfarpar rhestredig a werthir yn unol â phresgripsiwn a ddyroddwyd gan radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 [Saesneg yn unig] a Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 [Saesneg yn unig]

**Fe'u gwnaed ar:** 14 Rhagfyr 2016

**Fe'u gosodwyd ar:** 19 Rhagfyr 2016

**Yn dod i rym ar:** 28 Ionawr 2017

## SL(5)048 – Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Prif ddiben yr offeryn diwygio hwn yw mewnosod darpariaeth yn Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (Rheoliadau 2012) i alluogi Gweinidogion Cymru i gytuno ar drefniadau gyda phersonau y tu allan i lywodraeth ar gyfer ymgymryd â mesurau

swyddogol o dan oruchwyliaeth swyddogol. Mae gwelliannau pellach wedi'u cynnwys i gywiro mân hepgoriadau yn Rheoliadau 2012, egluro dosbarthiad lucerne a mewnosod y cyfnod amser ar gyfer cadw samplau o hadau at ddibenion gorfodaeth.

**Deddf Wreiddiol**: Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 [Saesneg yn unig]

**Fe'u gwnaed ar**: 15 Rhagfyr 2016

**Fe'u gosodwyd ar**: 19 Rhagfyr 2016

**Yn dod i rym ar**: 11 Ionawr 2017

Eitem 3.1

Rebecca Evans AC
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

13 Rhagfyr 2016

Annwyl Rebecca

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Llun 21 Tachwedd 2016 i gynorthwyo gyda'n gwaith o graffu ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ("y Bil"). Buasem yn croesawu rhagor o eglurhad ar nifer o faterion, fel yr amlinellir isod.

*Cymhwysedd deddfwriaethol*

Fel y gwyddoch, pe byddai Bil Cymru yn cael Cydsyniad Brenhinol byddai'n rhaid i bob Bil a gyflwynwyd i'r Cynulliad fod yn destun profion cymhwysedd o dan y model "cadw pwerau". Gwnaethoch sicrhau y byddai'r Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn y bydd Bil Cymru yn dod i rym, pe bai'r Cynulliad yn pasio'r Bil yng Nghyfnod 4. Fodd bynnag, roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn nodi a fyddai unrhyw ddarpariaethau yn y Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai Bil Cymru ar waith nawr. Buasem yn croesawu eglurhad ar y pwynt hwn.

Fel rhan o'n gwaith parhaus ar oblygiadau Bil Cymru, byddwn yn ystyried mewn perthynas â phob Bil (Llywodraeth ac anllywodraethol) a yw cwmpas y cymhwysedd deddfwriaethol fel y'i diffinnir yn y setliad newydd wedi effeithio ar gynnwys y Bil.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

*Adran 15 [Awdurdodau gorfodi]*

Yn ystod y gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a wrthodwyd gan y Pedwerydd Cynulliad, argymhellodd ein Pwyllgor blaenorol y dylid diwygio adran 15 i egluro mai awdurdodau cyhoeddus fydd yr awdurdodau gorfodi o dan y Bil. Gan fod y Gweinidog blaenorol a oedd yn gyfrifol a chithau wedi datgan eich bwriad mai awdurdodau cyhoeddus fydd yr awdurdodau gorfodi, buasem yn croesawu eglurhad eich bod yn bwriadu cyflwyno gwelliant i'r Bil i'r perwyl hwn.

*Adran 90 [Pŵer i ychwanegu neu ddileu triniaethau arbennig]*

Gwnaethom eich holi hefyd ynghylch adran 90 o'r Bil a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy reoliadau, y rhestr o driniaethau arbennig yn Adran 54. Dywed isadran 90(5):

> Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud diwygiadau i'r Rhan hon sy'n ganlyniadol i'r diwygiad i adran 54 a wneir gan y rheoliadau.

Rydym yn nodi'r ymateb a roesoch i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, buasem yn croesawu eglurhad ynghylch ystyr 'canlyniadol' yn y cyd-destun hwn.

Buasai o gymorth cael ymateb i'r llythyr hwn erbyn 16 Ionawr 2017.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a Jane Hutt AC, Arweinydd y Tŷ, i roi gwybod iddynt am ein dull cyffredinol o graffu yng Nghyfnod 1 mewn perthynas â Biliau'r Llywodraeth yn y dyfodol.

Yn gywir



**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA-L/RE/5437/16

Huw Irranca-Davies ac
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Ionawr 2017

Annwyl Huw Irranca-Davies,

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y cyfle i drafod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ar 21 Tachwedd 2016, ac am eich llythyr dilynol 13 Rhagfyr 2016.

Rwyf yn falch o roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y materion canlynol, a godwyd yn ystod y sesiwn:

a) Barn Llywodraeth Cymru ynghylch a fyddai unrhyw ddarpariaethau yn y Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol pe bai Bil Cymru ar waith yn awr;

b) Adran 15 o'r Bil; ac

c) Adran 90(5) o'r Bil.

Cyflwynir yr wybodaeth hon isod.

**Bil Cymru**

Fel y nodais i'r Pwyllgor wrth roi tystiolaeth lafar, ni fwriedir i Fil Cymru ddod i rym tan y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y model cadw pwerau yn y Bil yn dod i rym

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ym mis Ebrill 2018. Bydd hyn wrth gwrs yn digwydd ar yr amod bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad i Fil Cymru yn ddiweddarach y mis hwn ac nad yw Llywodraeth y DU yn newid y dyddiad y disgwylir i'r Bil ddod i rym.

Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn cael ei symud ymlaen cyn symud at y model hwnnw, a chaf ar ddeall y bydd Bil Cynulliad sydd wedi cwblhau dadl egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn erbyn mis Ebrill 2018 yn symud ymlaen o dan y model rhoi pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ni fydd Bil Cymru yn cael effaith ar ein gallu i orfodi'r darpariaethau ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) am fod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn cynnwys ei ddarpariaethau galluogi a gorfodi ei hun ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Ni fydd y model cadw pwerau newydd ym Mil Cymru yn dileu neu'n diddymu pwerau galluogi a gorfodi a gynhwysir ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Gan droi at gwestiwn y Pwyllgor ynghylch a fyddai unrhyw ddarpariaethau ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai Bil Cymru wedi'i sefydlu erbyn hyn, rwyf yn fodlon na fyddai dim. Diben Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yw gwella a diogelu iechyd pobl Cymru. Ar hyn o bryd mater datganoledig yw iechyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae hyn yn dal yn wir o dan Fil Cymru.

Pe bai Bil Cymru ar waith ar hyn o bryd, rwyf yn fodlon y byddai Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**Adran 15 (Awdurdodau Gorfodi)**

Nodaf argymhelliad y Pwyllgor a'ch rhagflaenodd y dylai adran 15 o'r Bil gael ei diwygio i egluro mai'r awdurdodau cyhoeddus fydd yr awdurdodau gorfodi. Nodaf hefyd, wrth dderbyn yr egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad, i'r Gweinidog blaenorol â chyfrifoldeb dros y mater amlinellu'r canlynol: er ei bod yn fwriad gennym ddynodi'r awdurdodau lleol fel awdurdodau gorfodi ar gyfer y gofynion di-fwg mewn safleoedd cyhoeddus a gweithleoedd, efallai y bydd amgylchiadau yn codi mewn rhai achosion lle y bydd yn ddefnyddiol dynodi awdurdodau gorfodi ychwanegol. Wrth ystyried unrhyw welliannau i'r Bil, felly, mae angen imi fod yn fodlon na fyddai'r dull gweithredu hwn yn atal awdurdodau gorfodi priodol eraill rhag cael eu dynodi, yn ôl yr angen.

Fel y nodais i'r Pwyllgor wrth roi tystiolaeth lafar, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i ymgymryd â gwaith pellach ar y mater hwn yn ystod Cyfnod 1, gyda'r bwriad o bosibl o gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2. Yng ngoleuni'r gwaith diweddar hwn rwyf bellach yn fodlon cadarnhau ei bod yn fwriad gennyf gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 a fydd yn bodloni argymhelliad y Pwyllgor a'ch rhagflaenodd.

**Adran 90 (pŵer i ychwanegu neu ddileu triniaethau arbennig)**

Mae adran 90(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu neu i ddileu triniaethau arbennig o'r rhestr o driniaethau sy'n cael eu cwmpasu gan y system drwyddedu. Os gwneir newid i'r rhestr yn y dyfodol, efallai y bydd angen addasu darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil i sicrhau bod y Bil yn gweithio o ran y driniaeth newydd honno. Er enghraifft, pe bai triniaeth arbennig newydd yn cael ei hychwanegu at y rhestr, byddai angen inni ei diffinio a'r lle gorau i'r diffiniad hwnnw fyddai'r adran ddehongli. Mae adran 90(5) yn caniatáu i'r math hwn o welliant canlyniadol gael ei wneud i Ran 3 o'r Bil drwy gyfrwng rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae felly yn darparu pŵer cul iawn i wneud rheoliadau sy'n helpu i sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol yn cael ei ddiogelu at y dyfodol ac yn gallu ymateb i ddiwydiant sy'n datblygu'n barhaus.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Rwyf yn anfon copi o'r ymateb hwn ar Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a Jane Hutt AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip.

Cofion gorau

**Rebecca Evans AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales



Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/GH

13 Ionawr 2017

Annwyl Gadeirydd

Yn 2015, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau allgymorth yn Wrecsam ac Abertawe, gyda'r nod o fynd â gwaith y Cynulliad at bobl Cymru. Y rheswm i ni ddewis Wrecsam ac Abertawe oedd oherwydd bod y niferoedd a bleidleisiodd yn y ddwy ardal yn arbennig o isel yn etholiad y Cynulliad yn 2011.

Fel rhan o fentrau Senedd@Wrecsam a Senedd@Abertawe, cyflwynodd staff raglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau, ymweliadau a gweithdai a lwyddodd i ymgysylltu â mwy na 5000 o bobl ynghylch gwaith y Cynulliad. Hefyd, llwyddwyd i feithrin cysylltiadau gwaith newydd â mudiadau lleol allweddol a'r cyfryngau, a roddodd sylw i'r digwyddiadau a gynhaliwyd.

Er mwyn cynnal y momentwm yn sgil ein hymweliadau â Wrecsam ac Abertawe, ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd, rwy'n awyddus i drefnu digwyddiad Senedd@ arall yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 20 Mawrth 2017. I barhau â'n taith o amgylch cymunedau Cymru, rydym wedi dewis Casnewydd fel lleoliad menter nesaf Senedd@.

Un o ganfyddiadau'r gwerthusiadau o fentrau blaenorol Senedd@ oedd yr angen i alluogi pwyllgorau i ystyried eu cyfraniad posibl yn gynnar yn y broses gynllunio. Felly, rwy'n gwahodd awgrymiadau gan eich pwyllgor ynghylch sut y gallwch gyfrannu at Senedd@Casnewydd.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, cynhaliodd pwyllgorau gyfarfodydd ffurfiol yn y gymuned, gan gymryd y cyfle i annog pobl i ymwneud â'u gwaith. Bydd Senedd@Casnewydd yn gyfle gwych i'ch pwyllgor godi ei broffil a meithrin perthynas waith newydd â llawer o fudiadau a chyfryngau lleol.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Geraint Huxtable ar 0300 200 6277 neu: Geraint.Huxtable@Cynulliad.Cymru.

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Gwydyr House
London
SW1A 2NP

22nd December 2016

Dear Alun

**Wales Bill: Clause 60 Consequential Provision**

I am replying to your letter of 13 December. We discussed the issues when we met on 15 December, and I have also now had the opportunity to read the Debate in the House of Lords on 14 December on clause 60 of the Bill.

It seems to me that there are four possible situations that might arise where Ministers of one government have powers to amend primary legislation made by, or of particular interest to, the "other" legislature.

First, UK Ministers may have taken powers in a Parliamentary Bill to make amendments by order to other enactments, which may include amending Assembly Acts or Acts of Parliament that fall within the legislative competence of the National Assembly. In those circumstances (and whether or not provision for affirmative order procedure has been made in the Bill), the Assembly's consent will be required, as is made clear in paragraph 53 of Devolution Guidance Note 9. The Assembly's Standing Order 30A sets out the procedural requirements for securing that consent; clearly, the early consultation you suggest before such orders are made will assist in that process. Given that it will not be only the Secretary of State for Wales who may secure such powers, it will be important that all Secretaries of State are aware of the requirement for Assembly consent in these circumstances.

Secondly, Devolution Guidance Note 17 (in conjunction with the Sewel convention) requires consent in circumstances where amendments are proposed to be made to the legislative competence of the National Assembly. So in the case of the Wales Bill the power could be used to amend the legislation (the 2006 and 2014 Acts) which establish the foundations of Welsh devolution. If such an amendment were sought to be achieved by a Parliamentary Bill, that Bill would require the Assembly's consent under the second limb of the Sewel Convention; it therefore must follow that Assembly consent should be required for the same

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

amendment being secured by Ministerial order.  Again your suggestion for early consultation would be appropriate in this context.

Thirdly, an Assembly Act (which of course will have to be within legislative competence if this situation is to arise) may give Welsh Ministers powers to make amendments to other legislation, including primary legislation.  Any such Act can be expected to require compliance with an affirmative order procedure in the Assembly if amendment to primary legislation is envisaged.

Finally, the content of an Assembly Act may be such as to require amendment of earlier legislation, but the amendments required may be beyond the Assembly's competence.  In that situation, the Secretary of State can make the necessary amendments by way of an order under section 150 of the 2006 Act, which requires affirmative order procedure if the order modifies earlier primary legislation.

I am copying this letter to the Presiding Officer, and you should feel free to share it as necessary with peers contributing to debates on the Wales Bill.

Yours sincerely

**CARWYN JONES**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5.2

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon